









# Llawlyfr

# Ysgol Llanbedrog

# 2022-23









YSGOL LLANBEDROG



## Gwreiddiau a Gorwelion

**Ysgol Llanbedrog,**
**Llanbedrog,**
**Pwllheli,**
**Gwynedd.**
**LL53 7NU**

**Ffôn (01758)740631** **manon.owen@llanbedrog.ysgoliongwynedd.cymru**

**mowen@ysgolllanbedrog.cymru**

**PENNAETH – Mrs Manon Haf Owen B.A**

Annwyl Rieni a Gwarchodwyr,

Mae'r Llawlyfr hwn yn cynnig ychydig o wybodaeth am yr ysgol i rieni, disgyblion a darpar-rieni a disgyblion.

Mae'r ysgol Gynradd hon yn gymuned hapus a gofalgar, ble ymdrechwn yn galed i hyrwyddo twf addysgol a moesol y disgyblion. Rhoddwn bwyslais cryf ar gyswllt agos gyda phob teulu a gweithredwn bolisi o ymateb i broblemau neu anawsterau drwy eu trafod gyda'r rhieni. Ein nod yw creu amgylchfyd ac awyrgylch lle gall y disgybl dyfu, datblygu ac aeddfedu i ddod yn unigolyn hyderus, yn ymwybodol o les eraill, ac yn aelod cyfrifol o'r gymdeithas yn ogystal â chynnig addysg flaenllaw o safon uchel sydd yn adlewyrchu gofynion y Llywodraeth Cymru, yr Awdurdod, y gymdeithas a'r unigolyn.

Yn Ysgol Llanbedrog rydym yn darparu cyfleoedd i'r disgyblion ehangu eu diddordebau a dod yn ymwybodol o'r byd o'u cwmpas. Mae hyn yn eu datblygu yn unigolion dibynadwy, hyderus a chrwn, cyfan. Cynhaliwn amgylchedd hapus sy'n meithrin disgyblion bywiog, brwdfrydig a llawn diddordeb, sydd nid yn unig â hyder yn eu gallu eu hunain ond sydd hefyd yn gweld pwysigrwydd mewn bod yn ystyriol o eraill sydd o'u cwmpas. Wedi'r cyfan, mae disgyblion hapus yn dysgu yn well.

Mae cynnydd datblygiad addysgol y disgyblion yn cael ei fonitro'n agos er mwyn gallu rhoi'r cymorth a'r anogaeth ychwanegol fel sydd ei angen. Rydym yn credu bod disgyblion yn dysgu orau pan fydd y cartref a'r ysgol yn gweithio gyda'i gilydd. Partneriaeth yw addysg rhwng yr ysgol a'r rhieni er budd y disgyblion. Mae dylanwad a chefnogaeth rhieni a theulu estynedig yn amhrisiadwy yn natblygiad cymdeithasol ac addysgol eich disgybl. Edrychwn ymlaen at gyd-weithio gyda chi.

Nid yw'r Llawlyfr hwn yn holl gynhwysfawr ac mae'n bosibl y bydd newidiadau yn digwydd na ellir eu rhagdybio. Gobeithio y gwelwch y Llawlyfr yn ganllaw defnyddiol.

Yn gywir

Manon Haf Owen

**Gwreiddiau a Gorwelion**

Gweledigaeth ein ysgol

## STAFF YR YSGOL

Mae staff yr ysgol i gyd yn gweithio i sicrhau bod y disgyblion yn gallu cael y profiadau gorau posibl yn eu bywyd ysgol. Dyma'r staff sy'n llunio ein tîm cyfeillgar yn Ysgol Llanbedrog:

| | |
|---|---|
| Pennaeth/Athrawes Blwyddyn 5 a 6 | Mrs Manon Haf Owen |
| Dirprwy Bennaeth /Athrawes Blwyddyn 3 a 4 | Mrs Gwyneth Lloyd Jones |
| Athrawes Blwyddyn 1 a 2 | Mrs Catrin Elain Hall |
| Athrawes Blwyddyn Meithrin a Derbyn | Mrs Sian Angharad Elfryn/Miss Sera Jones |
| Cymhorthydd Cyfnod Sylfaen | Mrs Lyn Davies |
| Cymhorthydd Cyfnod Sylfaen | Mrs Mair Jones |
| Cymhorthydd Cyfnod Sylfaen | Mrs Llinos Enlli Moore |
| Cymhorthydd | Miss Eleri Haf Williams |
| Cymhorthydd ADY | Mrs Mared Morris Owen |
| Cogyddes | Mrs Susan Pritchard |
| Clerc pres cinio | Mrs Elen Jones |
| Arolygwyr Clwb Brecwast ac Amser cinio | Ms Iona Squires |
| Goruchwyliwr Amser cinio | Mrs Rosemary Roberts |
| Uwch-oruchwyliwr Amser Cinio: | Athrawes/Cymhorthydd ar ddyletswydd |
| Gofalwraig | Mrs Jonet Parry |

## LLYWODRAETHWYR YR YSGOL

Mae'r Corff Llywodraethu'n yn gweithio gyda'r staff a'r Awdurdod Lleol i gynorthwyo'r ysgol i ddarparu'r addysg, gofal a phrofiadau orau bosibl ar gyfer yr holl ddisgyblion. Cynhelir cyfarfod o'r corff llawn ddwywaith y tymor a'r is-banelau yn rheolaidd. Gan fod rôl Llywodraethwyr yn cynyddu ac yn cymhlethu yn flynyddol, mynychant hyfforddiant perthnasol a dod ar deithiau addysgu i weld a thrafod gwahanol agweddau o fywyd yr ysgol. Cyflwynir Adroddiad Blynyddol i'r Rhieni yn nhymor yr Hydref a chynnigir hyd at dri cyfarfod y flwyddyn i rieni.

| ENW | SWYDDOGAETH | CYNRYCHIOLI |
|---|---|---|
| Ms Alaw Ceris | Cadeirydd | Rhieni |
| Mrs Miriam Grant | Is-Gadeirydd | Rhieni |
| Mr James Evans | | Cymunedol |
| Mr Ian Goronwy Williams | | A.A.Ll |
| Mr Guto Glyn | | Rhieni |
| Mr Andrew Parry | | Cymunedol |
| Dr Greta Hughes | | A.A.Ll |
| Miss Gwenllian Hughes | | Cyngor Cymuned |
| Mrs Gwyneth Lloyd Jones | | Athrawon |
| Mrs Manon Haf Owen | | Pennaeth (cyfetholedig) |
| Mr Iwan Hughes | | Clerc |

Gellir cysylltu gyda'r Cadeirydd drwy'r Pennaeth yn yr ysgol neu drwy ebostio iwanh@ysgolllanbedrog.cymru

# TREFNIADAETH YR YSGOL

Mae Ysgol Llanbedrog yn ysgol gynradd ddyddiol, ddwyieithog, gyd–addysgol.
Pedwar dosbarth sydd yn yr ysgol.

**2 x Cyfnod Sylfaen** – Mrs Sian Angharad Elfryn a Mrs Catrin Elain Hall
**2 x Cyfnod Allweddol 2** – Mrs Gwyneth Lloyd Jones a Mrs Manon Haf Owen

## Derbyn Disgyblion i'r Ysgol

Derbynnir disgyblion yn llawn amser ym mis Medi yn dilyn eu penblwydd yn bedair oed ac am 2 awr y bore yn 3 oed. Mae hyn yn unol â pholisi'r Awdurdod Addysg.

Dylai unrhyw riant sy'n dymuno i'w disgybl gael ei dderbyn i'r ysgol gysylltu'n uniongyrchol â'r Adran Addysg yng Nghaernarfon, sef gyda:
Owain Dewi Hughes, Swyddog Gwybodaeth, Addysg, Cyngor Gwynedd, Caernarfon, Gwynedd.
01286 679904, owaindewihughes@gwynedd.llyw.cymru

## Oriau Dysgu

- Mae'r oriau dysgu yn 24 awr yr wythnos i'r disgyblion llawn amser a 10 awr i'r disgyblion Meithrin.

| | | |
|---|---|---|
| **Sesiynau y bore** | 9:00 - 12:00 o'r gloch<br>9:00 - 11:00 i'r disgyblion Meithrin | |
| **Sesiwn y prynhawn** | 13:00 – 15:00 Bl M-2 | 13:00-15:15 Bl 3-6 |

- Ni ddylai disgyblion gyrraedd yr ysgol cyn 8:50am, onibai eu bod yn mynychu'r Clwb Gofal neu'r Clwb Brecwast.
- Dylai'r disgyblion gyrraedd yr ysgol yn brydlon. Byddant yn cael eu cofnodi fel "hwyr" os byddant yn cyrraedd ar ôl 9.00 a.m, a bydd y gwersi eisioes wedi cychwyn.
- Nid oes hawl gan ddisgybl i adael tir yr ysgol heb ganiatâd a heb i oedolyn ei gyrchu.
- Unwaith mae disgybl wedi ei drosglwyddo i riant/warchodwr, mae'r cyfrifoldeb amdanynt yn trosglwyddo i'r person sydd wedi dod i'w nôl.
- Yn swyddogol, bydd yr athrawon yn gyfrifol am bob disgybl 10 munud cyn dechrau a 10 munud wedi oriau'r ysgol.

## Amser Chwarae

Fel arfer, mae amser chwarae rhwng 10:00-10:20 Bl M-2, 10.30 and 10.50 Bl3-6, and 14.05 and 14.20 a cheir cyfle i chwarae amser cinio hefyd. Mae'r disgyblion yn chwarae ar yr iard neu'r cae chwarae, yn dibynnu ar y tywydd. Yn ystod amser chwarae gwlyb, mae'r disgyblion yn aros yn eu dosbarthiadau, ond parheir i roi egwyl iddynt o'u gwaith.

- Caiff disgyblion ddod â ffrwyth i'r ysgol ar gyfer ei fwyta ganol y bore. Ni chaniateir fferins, siocled na chreision, na diod heblaw am ddŵr yn unol â chanllawiau Ysgolion Iach Gwynedd a 'Blas Am Oes' Llywodraeth Cymru.
- Annogwn y disgyblion i ddod a photel o ddwr hefo nhw i'r ysgol bob dydd a'i chadw yn y dosbarth.
- Mae cyfle i'r disgyblion gael diod **llefrith** ganol y bore. Mae hwn am ddim i ddisgyblion y Bl M-2 ond yn 50c yr wythnos i ddisgyblion Bl 3-6. Rhaid talu ymlaen llaw, ar School Gateway am y llefrith

## Amser Mynd Adref

Cofiwch adael i'r ysgol, ac i'ch plentyn, wybod os bydd newid yn eich trefniadau arferol ar gyfer nôl eich plant o'r ysgol.
Os bydd teuluoedd yn chwalu, ac un rhiant yn cael gofal am y disgyblion, mae'n bwysig ein bod yn cael gwybod am y trefniadau i osgoi sefyllfa annifyr.

## AMDDIFFYN A DIOGELU DISGYBLION

Fel rhan o'n gweithdrefnau Amddiffyn Disgyblion, mae gan holl staff yr ysgol gyfrifoldeb i adnabod arwyddion o gamdriniaeth neu esgeulustod posibl, a chyfeirio eu pryderon ymlaen. Dylid cysylltu hefo'r Pennaeth os oes unrhyw bryder, neu gyda person cyswllt os oes honiadau Amddiffyn Disgyblion yn gysylltiedig â'r Pennaeth.

Y person dynodedig Amddiffyn Disgyblion yn yr ysgol hon yw Manon Haf Owen
Y dirprwy berson dynodedig yw Gwyneth Lloyd Jones.
Personau cyswllt eraill yw:

- Emily Young (Llywodraethwr Dynodedig)
- Delyth Wyn Griffiths (07977504344) (Swyddog Diogelu Disgyblion Cyngor Gwynedd)
- Gwasanaethau Cymdeithasol CyferiadauDisgyblion@gwynedd.gov.uk (01758 704455).

## DAMWEINIAU A MEDDYGINAETHAU

Gofalir am unrhyw ddisgybl sy'n mynd yn sâl yn yr ysgol neu'n cael damwain, a'i gysuro. Os bydd ein cymorthyddion cyntaf yn ei ystyried yn angenrheidiol, byddwn yn cysylltu â chi ac yn gofyn i chi ddod i gasglu eich disgybl. Am y rheswm hwn, mae'n hanfodol bod yr ysgol yn cael gwybod pe bai eich manylion cyswllt yn newid neu fod unrhyw anghenion meddygol penodol gan eich disgybl. Cedwir cofnodion damweiniau ar ffeil, ac anfonir slip damwain adref i esbonio'r hyn sydd wedi digwydd.

Mewn achos brys lle na ellir dod i gysylltiad â rhiant bydd y Pennaeth yn gweithredu'n ôl y galw. Mae aelodau o staff yr ysgol wedi derbyn yr hyfforddiant Cymoth Cyntaf priodol.

Pe bai ar eich disgybl angen moddion yn ystod y diwrnod ysgol cysylltwch ag aelod o staff. Ni all athrawon roi ffisig/tabledi i unrhyw ddisgybl heb fod y ffurflenni angenrheidiol wedi eu llenwi.

## TREFNIADAU IECHYD, LLES A DIOGELWCH

Mae diogelwch y disgyblion, y staff ac ymwelwyr yn cael blaenoriaeth gennym. Mae'r llywodraethwyr yn sicrhau diogelwch yr adeilad ac eiddo'r ysgol.

- Mae gennym nifer o bolisiau manwl sydd yn cael eu dilyn yn ofalus, a dilynwn ganllawiau Cyngor Gwynedd a Llywodraeth Cymru.
- Mae asesiadau o risg yn cael eu paratoi i sicrhau fod gweithgareddau'r ysgol mor ddiogel â phosibl.
- Mae Panel Adeiladau'r Llywodraethwyr a Swyddogion Adeiladau'r Cyngor yn cynnal arolwg rheolaidd o'r adeiladau o ran cyflwr a diogelwch.
- Cynhelir dril tân yn dymhorol.
- Mae gennym system i ganiatâu mynediad i ymwelwyr i'r ysgol a pholisi goruchwylio sydd yn cyd-fynd â'r gofynion.

## CLWB GOFAL A CHLWB BRECWAST

Mae cyfle i bob disgybl yn yr ysgol fod yn rhan o'n Clwb Gofal a'n Clwb Brecwast, sydd yn cael ei gynnal yn neuadd yr ysgol. Mae'r ddarparaieth hon ar gael bob diwrnod ysgol a rhaid cofrestru a thalu ymlaen llaw ar School Gateway.

8:10–8:35 i'r Clwb Gofal (£1.00 y dydd), i'w dalu ymlaen llaw ar School Gateway.

8:35-8:50 i'r Clwb Brecwast (am ddim) i gael sudd ffrwythau, grawnfwyd a thôst i frecwast.

## GWISG YSGOL – i'w harchebu gan Gwmni Brodwaith

Mae gennym wisg ysgol swyddogol. Er nad oes gorfodaeth ar ddisgyblion i'w gwisgo, teimlir bod gwisg ysgol yn arwain at feithrin balchder yn yr ysgol ac ymdeimlad o berthyn ac annogwn bawb i'w gwisgo.

Gellir prynu siwmperi a chrysau polo gyda logo'r ysgol arnynt gan gwmni Brodwaith; www.brodwaith.co.uk, 01690 770393 or admin@brodwaith.co.uk.
Neu, gellir gwisgo rhai heb logo'r ysgol o unrhyw siop arall.

- Crys polo gwyn neu goch
- Siwmper, cardigan neu hwdi goch
- Sgert/trowsus/ trowsus cwta ddu neu lwyd
- Ffrog haf goch a gwyn
- Esgidiau cyfforddus, addas i redeg a chwarae

Mae'n hanfodol, rhag cymysgu dillad, fod enwau disgyblion wedi eu nodi yn eglur ar bob dilledyn.

Mae pob disgybl angen esgidiau chwaraeon, trowsus cwta a chrys-T ar gyfer addysg gorfforol, ddwywaith yr wythnos. Am resymau hylendid, ni ddylent wisgo'r dillad hyn i ddod i'r ysgol yn y bore, ond newid iddynt am y wers ac yna newid i'w dillad arferol ar ddiwedd y sesiwn.

Os yw'r disgyblion am wisgo clustdlysau, rhaid sicrhau mai rhai 'stud' yn unig fyddant yn eu gwisgo.

Disgwyliwn i blob plentyn sydd â gwallt hir, glymu ei wallt neu gwallt yn ôl i ddod i'r ysgol, er diogelwch a glanweithdra.

## CINIO YSGOL

Mae'r ysgol darparu prydau ysgol danteithiol ac iachus ar gyfer ein disgyblion bob dydd. Dilynwn amserlen cynllun Llywodraeth Cymru i gynnig cinio ysgol am ddim i holl ddisgyblion Cynradd Cymru. i'r rhai sydd yn talu ar hyn o bryd, cost gyfredol cinio ysgol yw £2.50 y dydd i'w dalu ar School Gateway. Ni dderbynir arian parod.
Mae prydau am ddim ar gael i bob disgybl o deuluoedd sy'n derbyn Cynhaliaeth Incwm neu Lwfans Ceisio Gwaith. Mae'r ffurflen sydd ei hangen i hawlio'r hawliad hwn ar gael o'r Cyngor. Noder fod holl ddata cinio ysgol yn cael ei gasglu gan yr AALL.

Mae'n well gan rai disgyblion ddod â'u cinio eu hunain i'r ysgol. Gan ein bod yn rhan o Gynllun Ysgolion Iach Gwynedd ac yn dilyn canllawiau'r Llywodraeth, bwyd a diod iach yn unig a ganiateir yn y bocsus bwyd, dim diod ffisi na fferins. Gweler ein gwefan ysgol am ganllawiau Llywodraeth Cymru.

Mae'r holl ddisgyblion yn bwyta'u cinio ar y cyd yn neuadd yr ysgol rhwng 12:00 a 12:30.

## BYW'N IACH

Mae'r ysgol yn dilyn canllawiau diweddaraf y Llywodraeth ynglyn â 'Byw'n Iach'. Cewch fwy o wybodaeth ym mholisi llawn yr ysgol neu wefan yr ysgol.

## PRESENOLDEB AC ABSENOLDEB

Mae gofyn statudol i ysgolion gadw cofnod manwl o bresenoldeb disgyblion a phob absenoldeb a gwnawn hyn drwy system Sims.

Dylid cysylltu â ni cyn 9.00 a.m. (trwy ebost neu alwad ffôn) os na fydd disgybl yn dod i'r ysgol. Mae hyn y hollbwysig o ran sicrhau diogelwch pob disgybl sydd yn yn ein gofal, ac i ni fod yn gwybod pam fod disgybl yn absennol.

Os nad yw disgybl yn bresennol ar gyfer sesiwn, cânt eu marcio'n absennol. Yn unol â gofynion y Llywodraeth mae'n rhaid i bob ysgol ddosbarthu absenoldebau mewn un o ddwy ffordd:

- **absenoldebau awdurdodedig**—hefo rheswn dilys, yn cynnwys salwch neu apwyntiadau meddygol.
- **Absenoldebau anawdurdodedig-**heb eu hesbonio neu heb reswm dilys

Mae gwybodaeth am bresenoldeb yr ysgol yn cael ei chadw'n electronig gan yr AALl ac y cael eu monitro. Gall Swyddogion Lles Addysg ymweld â chartrefi unrhyw rieni yr ystyrir bod ffigurau presenoldeb eu disgybl yn bryder i'r Ysgol a'r AALl.

Mae'n bosibl caniatâu hyd at ddeg diwrnod ysgol y flwyddyn i wyliau teuluol , er fod hyn, wrth gwrs yn amharu ar addysg disgybl. Rhaid gwneud cais ysgrifenedig i'r Llywodraethwyr am hyn, drwy gyflwyno ffurflen gais berthnasol i'r pennaeth o leiaf mis cyn y gwyliau.

**Presenoldeb yr Ysgol 2021-22 (amherthnasol oherwydd Covid-19)**
Presenoldeb-93.54%
Absenoldeb gydag Awdurdod –6.19%
Absenoldeb heb Awdurdod –0.27%

Targed presenoldeb y llywodraethwyr yw 95.5%

## GOFAL BUGEILIOL

Rhoddir pob disgybl yng ngofal athrawes, ond ceisia'r staff cyfan ymorol am les yr holl ddisgyblion.

Mae'r ysgol hon yn annog disgyblion i fod yn hunan-ddisgybledig, yn gyfrifol ac i barchu eraill. Hyderwn y cawn gefnogaeth rhieni yn hyn o beth.

Mae Canllawiau'r Adran Addysg a rhai'r Llywodraeth yn ei gwneud yn glir bod gan ysgolion ran bwysig i'w chwarae i warchod disgyblion rhag cam-driniaeth. Mae'n gyfrifoldeb arnom ddatgan unrhyw bryder am ddisgybl i'r Swyddog Lles Addysg a'r Gwasanaethau Cymdeithasol.

Mae Polisiau Defnyddio Grym Rhesymol, Ymddygiad, Amddiffyn Plant a Gwrth-fwlio cyfredol ar gael yn yr ysgol ac ar ein gwefan.

## CYD-ADDOLI/ CYD-FYFYRIO

Yn unol â'r gofynion statudol, mae'r disgyblion yn cymryd rhan mewn gweithred ddyddiol o fyfyrio a diolch. Nid yw'r ysgol hon yn dal cysylltiad ffurfiol ag unrhyw enwad crefyddol. O bryd i'w gilydd, bydd yr athrawon yn arwain neu bydd ymwelwyr yn dod megis ein Ficer lleol.

Dylai rhieni nad ydynt am i'w plant fynychu'r sesiynau cyd-fyfyrio neu astudiaethau cyffelyb cysylltu hefo'r pennaeth i drefnu cyfarfod.

Mae copi o'r Polisi Cyd-fyfyrio ar gael yn yr ysgol ac ar ein gwefan.

# Y SEFYLLFA IEITHYDDOL

Credwn bod gan holl ddisgyblion yr ysgol hon hawl i dyfu yn ddinasyddion dwyieithog. Parchwn famiaith pob disgybl, a cheisiwn eu hannog i ddatblygu eu hyfrededd yn eu hail iaith, boed honno yn Gymraeg neu'n Saesneg.

Mae nodau ieithyddol yr ysgol hon yn unol â nodau Polisi Iaith Gwynedd.

Gweithredir y polisi drwy:

- sicrhau yn y dosbarth Meithrin/Derbyn, trwy ddarpariaeth a threfniadaeth bwrpasol a sensitif, y rhoddir sylfaen gadarn yn y Gymraeg i bob plentyn, er mwyn ei alluogi i gyrraedd y nod o ddwyieithrwydd llawn maes o law.
- adeiladu ym Mlynyddoedd 1 a 2 ar y sylfaen a osodwyd i'r Gymraeg drwy addysg Feithrin, cadarnhau a datblygu mamiaith y disgybl o ddysgwr Cymraeg
- yng Nghyfnod Allweddol 2, cadarnhau a datblygu Cymraeg a Saesneg pob disgybl yn eu holl agweddau goddefol a gweithredol, er mwyn sicrhau eu bod yn gallu siarad, darllen ac ysgrifennu'n rhwydd a hyderus yn y ddwy iaith pan yn trosglwyddo i'r ysgol uwchradd.

Y Gymraeg yw iaith gyfathrebol yr ysgol hon. Fe'i defnyddir

- yng ngweinyddiad dydd i ddydd yr ysgol
- fel iaith tu allan i sesiynau dysgu
- fel iaith amser egwyl a chinio
- fel iaith cyngherddau, gwasanaethau a chyflwyniadau i gynulleifdaoedd amrywiol

Y Gymraeg yw prif iaith cyfrwng y dysgu, fe'i defnyddir i gyflwyno a chofnodi ar draws y cwricwlwm.
Cyflwynir y Saesneg yn raddol ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen ac yna cynyddir ei ddefnydd yn gyson trwy Gyfnod Allweddol 2 i gyflwyno a chofnodi, fel y gall pob disgybl ei ddefnyddio'n hwylus.

Ysgol naturiol Gymraeg yw Ysgol Llanbedrog ac mae'r staff a'r disgyblion yn ymdrechu'n galed i gadw naws ac awyrgylch Gymreig yr ysgol. Ni ddylai'r rhai ohonoch sydd â'ch disgyblion yn rhan o sefyllfa ddwyieithog am y tro cyntaf deimlo dan fygythiad na theimlo nad ydych chi'n perthyn. Efallai nad ydych chi'n siarad Cymraeg, er bod llawer o rieni'n penderfynu dysgu'r iaith, ond gobeithiwn y byddwch yn parchu'r awyrgylch ieithyddol sy'n bodoli yma, awyrgylch sy'n cyfoethogi cymaint ym mhob ystyr ar brofiadau dysgu'r disgyblion. Parchwn eich hawl chi i ddefnyddio'r iaith a ddewisir gennych, ac i'r diben hwnnw, byddwch yn derbyn gohebiaeth ddwyieithog o'r ysgol.

Pan ddaw **hwyrddyfodiad,** o Flwyddyn 2 ymlaen**,** i'r ysgol, h.y. disgybl nad yw'n siarad Cymraeg o gwbl, cynigir cwrs brys o dymor yng Nghanolfan Iaith Llangybi. Mae cyfleoedd hefyd i ddisgyblion fynd yno i loywi eu Cymraeg a dod yn fwy rhugl. Yno, bydd y disgybl yn rhan o grŵp dysgu bychan yn cael ei addysgu gan arbenigwyr mewn dysgu Cymraeg fel ail iaith. Yn ystod y tymor byddant yn dilyn y cwricwlwm ysgol arferol yn ogystal â chael dysgu Cymraeg.
Cludir y disgyblion i'r Ganolfan yn rhad ac am ddim. http://canolfannau-iaith-gwynedd.cymru/

Fel pob ysgol arall yng Ngwynedd, dilynwn egwyddorion Siarter Iaith Gwynedd sydd yn hybu'r defnydd naturiol o'r Gymraeg ym mhob rhan o fywyd yr ysgol.

Os dymunwch wybodaeth am ddysgu Cymraeg i Oedolion cysylltwch â'r neu ewch i wefan https://dysgucymraeg.cymru/

## YR YSGOL A'R CARTREF

Ymfalchiwn yn yr ysgol hon yn ein perthynas gadarnhaol gyda rhieni a gwarchodwyr. Credwn yn gryf fod partneriaeth hapus ac agored rhwng yr ysgol a'r cartref yn holl bwysig. Dim ond wrth i'r cartref a'r ysgol gyd-weithio y gallwn helpu pob disgybl i wneud y gorau o'i alluoedd a'i adnoddau.

Cytunir ar **Gytundeb Cartref Ysgol** sydd yn nodi cyfrifoldebau a dyletswyddau'r ysgol, gan y rhieni, disgybl a'r pennaeth sydd yn pwysleisio'r cydweithio fydd yn arawin at yr addysg, y gefnogaeth a'r ofal orau posibl i bob disgybl i sicrhau pob chwarae teg a chyfle i lwyddo.

Teimlwn ei bod yn hollbwysig fod rheni yn gallu trafod gwahanol faterion gyda'r pennaeth a'r athrawon dosbarth, ar amser sydd yn gyfleus. Yn wir, anogir rhieni i gysylltu i drefnu apwyntiad os oes unrhyw fater y dymunir ei drafod.

Yn ogystal, caiff rhieni hefyd gyfleoedd ffurfiol deirgwaith y flwyddyn i weld y gwaith a wneir yn yr ysgol, a derbyn adroddiad lawn ar ddiwedd tymor yr haf er mwyn rhoi syniad i'r rhieni am gynnydd eu disgyblion dros y flwyddyn academaidd.

Gan fod barn a safbwyntiau rieni yn bwysig i ni, rhannwn holiaduron achlysurol i dderbyn adborth mwy ffurfiol gennych, ac yna yn rhannu'r cafnyddiadau.

### Trosglwyddo Gwybodaeth i Rieni

Rhoddir gwybodaeth am weithgareddau sydd i ddod mewn Digwyddiadur rheolaidd, ac bydd adegau pan fyddwn yn anfon gwybodaeth trwy lythyr, ebost i hysbysu rhieni am ddigwyddiadau'r ysgol. Gofynnir yn garedig i chwi ddarllen pob gohebiaeth yn ofalus os gwelwch yn dda.

Mae ein **Gwefan Ysgol** yn llawn o wybodaeth berthnasol i rieni, a rhannwn wybodaeth drwy ein cyfrif **Facebook** (Ysgol Llanbedrog).
Ebostiwn, anfonwn negeseuon testun a defnyddiwn **Teachers2Parents,** sydd ffyrdd hwylus iawn o gysylltu a rhannu.

### Cyfeillion Ysgol Llanbedrog

Grŵp sydd wedi ei sefydlu yn yr ysgol ers rhai blynyddoedd yw'r Cyfeillion.

Yn fuan ar ddechrau blwyddyn ysgol, cynhelir Cyfarfod Blynyddol y Cyfeillion. Mae croeso i bob un sydd yn ymwneud â'r ysgol fod yn aelodau o'r gymdeithas hon. Nod y grŵp yw codi arian i brynu adnoddau fydd yn datblygu, atgyfnerthu a hyrwyddo addysg y disgyblion, a dyfnhau'r berthynas sy'n bodoli rhwng staff, rhieni a phawb arall sy'n ymwneud â'r ysgol.

Rydym yn ddiolchgar iawn i'r Cyfeillion am eu hymroddiad, cefnogaeth a'u gwaith caled yn ystod y flwyddyn. Mae **pob** disgybl sydd yn Ysgol Llanbedrog yn elwa yn fawr o'u gwaith caled.

### Dogfennau

Mae gan rieni hawl i wneud cais i'r ysgol i gael golwg ar nifer o ddogfennau megis polisiau yr Awdurdod Addysg, polisiau a nodau Cwricwlaidd y Corff Llywodraethu, adroddiadau Estyn ar yr ysgol, meysydd llafur a chynlluniau gwaith ac adroddiad blynyddol i rieni. Mae amryw o'r rhain ar gael i'w darllen ar wefan yr ysgol.

# GWAITH CARTREF

**Rhagair**
Mae Polisi Gwaith Cartref yr ysgol yn cyflwyno canllawiau ar gyfer gosod, cwblhau ac ymateb i waith cartref. Gobeithir, trwy gydweithrediad a'r rhieni y bydd y gwaith cartref yn helpu i godi safonau addysgol a chyfoethogi'r cwricwlwm. Sicrheir bod y gwaith yn amrywiol, o fewn gallu'r disgybl ond eto'n ymestynnol ac yn ddiddorol.
Mae copi o'r Polisi Gwaith Cartref ar gael yn yr ysgol ac ar ein gwefan.

**Yr angen am waith cartref:**
- Mae gwaith cartref yn fodd o sicrhau bod disgybl yn meithrin yr hyder i weithio'n annibynol tu allan i sefyllfa'r dosbarth /ysgol.
- Yn aml, mae'n atgyfnerthu'r gwaith a wneir ar lawr y dosbarth.
- Mae'n gyfle i'r rhieni gymryd rhan weithredol yn addysg y disgyblion
- Mae'n fodd o ehangu cwricwlwm y disgyblion.
- O dro i dro gall disgybl dderbyn gwaith ychwanegol er cael cefnogaeth neu ganolbwyntio ar agwedd arbennig o'r gwaith. Gobeithir cael cydweithrediad llwyr y cartref ac anogaeth i'r disgybl i wneud y gwaith.

**Gosod a dychwelyd gwaith cartref**
- Fel rheol gosodir gwaith cartref ar dydd Gwener a disgwylir i bawb ei ddychwelyd ar y dydd Mawrth canlynol. Disgwylir i bob disgybl gadw at y diwrnod hwn gan fod yr athrawon yn gofalu bod digon o amser yn cael ei roi i gwblhau'r gwaith.
- Os yw gwaith cartref yn hwyr - dylai'r disgybl ddod â nodyn yn egluro rheswm dilys am hyn.
- Cedwir cofnod yn yr ysgol.

**Ymateb i waith cartref**
- Mae ymateb yr athrawon i'r gwaith cartref yn amrywio yn ôl y math o waith a osodir ac ar y wybodaeth a gasglwyd e.e. prawf - sillafu neu dablau, marcio gwaith ysgrifenedig neu cynnal trafodaeth yn y dosbarth.

**Safon y gwaith cartref**
- Dylai pob gwaith cartref fod yn adlewyrchiad o ymdrech gorau pob disgybl. Ni fydd gwaith blêr a brysiog yn cael ei dderbyn. Gall athrawes ofyn i ddisgybl ail-wneud y gwaith nes bod y safon yn dderbyniol.

**Rhieni**
- Disgwylir i rieni roi pob cynhaliaeth i'r disgyblion a'u hannog i wneud y gwaith gorau posibl.
- Dylid sicrhau mai gwaith y disgybl sydd yn cael ei gyflwyno!
- Anogir rhieni i gysylltu â'r ysgol os cyfyd unrhyw anawsterau.
- Disgwylir i bob disgybl roi cynnig ar y tasgau hyd eithaf eu gallu.
- O dro i dro gall disgybl dderbyn gwaith ychwanegol er cael cefnogaeth neu ganolbwyntio ar agwedd arbennig o'r gwaith. Gobeithir cael cydweithrediad llwyr y cartref ac anogaeth i'r disgybl i wneud y gwaith.

# DARLLEN GARTREF

Gan fod darllen yn rhan hynod bwysig yn natblygiad addysgol disgybl, mae gennym Gynllun Darllen Gartref lle y gofynnwn i rieni ddarllen gyda'r disgyblion yn rheolaidd a chadw cofnod o'r hyn y mae disgybl wedi ei ddarllen mewn llyfryn arbennig. Gwerthfawrogwn eich cyfraniad yn y llyfryn wythnosol.

# SUT Y GALLAF HELPU I HYBU ADDYSG FY MHLENTYN?

Gosodir rhai canllawiau yma ynglyn â'r math o bethau yn fras y gall rhiant ddysgu i ddisgyblion a fydd yn eu galluogi i roi cymorth ychwanegol i'w disgybl yn yr ysgol.

**Meithrin**

- Dysgu lliwiau
- Cyfri i 10
- Lliwio yn daclus
- Adnabod rhai llythrennau a rhifau
- Gafael mewn pensel yn gywir
- Gwneud lluniau
- Sgwrsio am ddigwyddiadau'r dydd
- Darllen iddynt yn rheolaidd
- Canu caneuon
- Edrych ar raglenni Cymraeg Cyw

**Dosbarth Derbyn**

- Adnabod llythrennau a rhifau
- Cyfrif hyd at 20
- Cyfri fesul 10
- Ffurfio llythrennau a rhifau yn gywir
- Ysgrifennu geiriau a brawdegau syml
- Dysgu dyddiau'r wythnos
- Darllen geiriau syml a llyfrau iddynt yn rheolaidd
- Bwyta hefo cyllell a fforc
- Edrych ar raglenni Cymraeg Cyw

**Blwyddyn 1 a 2**

- Gwybod tablau 2,3,5 a 10
- Adio a thynnu yn eu pen hyd at 20
- Cyfrif hyd at 100
- Dweud yr amser (ar yr awr,hanner awr wedi a chwarter wedi ac i.)
- Ymarfer darllen yn rheolaidd
- Ysgrifennu brawddegau
- Sgwrsio yn y Gymraeg a'r Saesneg

**Blwyddyn 3 a 4**

- Gwybod tablau 2,3,4,5, 6 a 10 o leiaf
- Dweud yr amser ar gloc analog
- Ysgrifennu ffurfiau Cymraeg a Saesneg; e.e llythyr, stori dyddiadur ...
- Trafod a sgwrsio gan fynegi barn yn synhwyrol yn y ddwy iaith.
- Ymarfer darllen a thrafod yn rheolaidd.

**Blwyddyn 5 a 6**

- Gwybod tablau i gyd at 10 x 10 erbyn tymor cyntaf Blwyddyn 5.
- Ysgrifennu ffurfiau Cymraeg a Saesneg, e.e storiau, llythyr, erthygl heb fawr o gamgymeriadau sillafu, ac yn cynnwys paragraffau
- Trafod a sgwrsio yn hyderus yn y ddwy iaith gan ddefnyddio iaith gywir, geirfa dda gan fynegi barn a safbwynt yn glir.
- Ymarfer darllen testunau estynedig a thrafod yn rheolaidd.

Mae ymarfer darllen ychydig bach yn ddyddol gyda'ch disgybl
yn gwneud gwahaniaeth mawr.

## ETHOS AC YMDDYGIAD

Yn Ysgol Llanbedrog credwn fod safon uchel o ymddygiad ac ethos cadarnhaol yn holl-bwysig ar gyfer cyflwyno addysg o'r ansawdd orau ac ar gyfer rhoi sgiliau bywyd positif i'r disgyblion. Mae cwrteisi, parch, moesgarwch ac ystyriaeth o eraill, ynghyd â hunan-ddisgyblaeth yn agweddau pwysig o addysg disgybl ac nid ydym yn derbyn unrhyw fath o fwlio.
Mae copïau o'n Polisi Gwrth-fwlio ar gael yn yr ysgol ac ar ein gwefan.

- Dilynwn egwyddorion cynllun Webster-Stratton, sydd yn cael ei annog gan Gyngor Gwynedd. Mae yn canolbwyntio ar ganmol ymddygiad da ac atgoffa'r disgyblion yn rheolaidd o'r Rheolau Aur.
- Mae ein hystafelloedd dosbarth yn lleoedd prysur ac atyniadol fel bod y disgyblion yn mwynhau
- dysgu, yn gweithio'n galed ac yn ymddwyn yn dda.
- Credwn mewn amddiffyn hawliau dysgu a diogelwch pob un o'r disgyblion.
- Pe bai disgybl yn methu dilyn y Rheolau Aur ac yn ymddwyn mewn ffordd sydd yn amharu ar eraill mae gennym gamau pendant y byddwn yn eu dilyn, a gall arwain at ddefnyddio'r Gadair Dawel i ymdawelu, a meddwl am achos a chanlyniad.

Mae copi o'n Polisi Ymddygiad ar gael yn yr ysgol ac ar ein gwefan.

Ymfalchiwn fod yr ysgol yn gymdeithas o unigolion sydd yn gofalu am ei gilydd.

## CODI TÂL AM WEITHGAREDDAU

O bryd i'w gilydd, gofynwn am gyfraniadau gwirfoddol tuag at gost rhai gweithgareddau ysgol, megis teithiau addysgol a chludiant i wersi yn y ganolfan hamdden. Gan ein bod yn awyddus i gynnig cyfleoedd i'r disgyblion ddysgu y tu allan i adeilad yr ysgol, rydym yn eithriadol o ddiolchgar am gefnogaeth barhaus rhieni. Mae'r cyfraniadau yn caniatâu i ni gynllunio ymweliadau a gweithgareddau cyffrous na fyddem yn gallu eu cynnig i'r disgyblion heb y cyfraniadau. Adolygir y Polisi Ymweliadau yn flynyddol gan y llywodraethwyrac mae copi ar gael yn yr ysgol ac ar ein gwefan.
Ni eithrir unrhyw ddisgybl o weithgareddau ar sail amharodrwydd neu anallu i gyfrannu'n wirfoddol.

## GWERSI OFFERYNNOL

Mae cyfle i'r disgyblion o Flwyddyn 3 ymlaen gael gwersi offeryn. Yn anffodus, rhaid codi ffî am y gwersi (mae gostyngiad i rai ar Gymorth Incwm). Trefnir hyn yn Nhymor yr Haf wrth gynllunio ymlaen at fis Medi. Rhaid i rieni arwyddo cytundeb am flwyddyn o wersi gyda Gwasnaeth Cerdd, Galeri, Caernarfon.

## CHWARAEON

Ar brynhawniau Gwener, mae grwpiau o ddisgyblion yr ysgol yn mynychu gwersi yng nghanolfan Byw'n Iach Dwyfor, Pwllheli er mwyn derbyn profiadau corfforol amrywiol. Yr ysgol sydd yn talu am ddefnyddio'r ganolfan ac am yr hyfforddwyr. Ond, gofynnwn yn garedig am gyfraniad o £1.70 y disgybl i dalu am gostau'r bws. Ni ellir parhau â'r trefniaint hwn heb y cyfraniadau hyn. Caiff y ddarpariaeth hon ei hadolygu yn flynyddol. Bydd pob disgybl o Derbyn i Flwyddyn 6 yn cael cyfle i fynd yn ystod pob blwyddyn addysgol.

Rhown gryn werth ar weithgareddau corfforol a'u cyfraniad i ddatblygiad corfforol, addysgol, cymdeithasol ac emosiynol pob disgybl. Ceisiwn ddarparu amrywiaeth eang o weithgareddau i ymateb i ddiddordebau pob disgybl a chystadlu mewn cystadlaethau amrywiol yn lleol.

Yn ogystal â'n gwersi Addysg Gorfforol mae cyfle i ddisgyblion Blwyddyn 1-6 i ymaelodi â'r Urdd, sydd yn cyfarfod ar ôl ysgol ar ddyddiau Mawrth. Trwy hyn ceir cyfleoedd i gymeryd rhan mewn gweithgareddau cyfeillgar a chystadleuol amrywiol yn unigolion.

# CWRICWLWM i GYMRU

O Fedi 2022 rydym yn cyflwyno'r Cwricwlwm newydd i Gymru, cwricwlwm sydd yn cael ei gyflwyno i ddisgyblion o 3 i 16 oed. Un continwwm dysgu sydd, sydd wedi disodli'r cyn Gyfnodau Allweddol a Chyfnod Sylfaen.
Gweler hefyd ddogfen Dylunio Cwricwlwm Ysgol Llanbedrog ar wefan yr ysgol.

## Pedwar Diben

Dyma sail a chraidd y Cwircwlwm ac mae'r 4 Diben yn plethu drwy holl waith ac ethos yr ysgol. Eu nod yw sicrhau fod plant a phobl ifanc yn:

- Ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes
- Cyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eiu bywyd a'u Gwaith
- Dinasyddion egwyddorol, gwybodus Cymru a'r byd
- Unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas

Mae datblygu'r **sgiliau cyfannol** isod yn hanfodol er mwyn gallu cyflawni'r Pedwar Diben:

- Creadigrwydd ac arloesi
- Meddwl yn feirniadol a datrys problemau
- Effeithiolrwydd personol
- Cynllunio a threfnu

## Meysydd Dysgu a Phrofiad

Cyflwynir y Cwricwlwm drwy'r chwe Maes Addysgu a Phrofiad, sy'n disodli'r hen "bynciau"

- Y Celfyddydau Mynegiannol
- Iechyd a Lles
- Y Dyniaethau
- Ieithoedd, llythrennedd a Cyfathrebu
- Mathemateg a Rhifedd
- Gwyddoniaeth a Thechnoelg

## Camau Cynnydd

Nodir dilyniant drwy bum pwynt yn y continwwm dysgu, sy'n fras yn disgrifio disgwyliadau 5, 8, 11, 14 ac 16 oed. Defnyddir profion personol, profion cenedlaethol, asesu ffurfiannol ac asesu crynodol i fonitro cynnydd.
.

## Cyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd

Bydd sgiliau yn cael eu cyflwyno a'u datblygu trwy'r gynnwys Rhaglenni Astudio Cymraeg, Saesneg a Mathemateg a'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol ar draws y cwricwlwm. Adeiladir ar y sgiliau yn barhaus rhwng 3-16 oed, gan ddatblygu, ymarfer, cymhwyso a mireinio'r sgiliau hyn trwy dasgau grŵp a thasgau unigol mewn amrywiaeth o gyd-destunau ar draws y cwricwlwm.

## 12 Egwyddor Addysgegol

| | | | |
|---|---|---|---|
| Creu cyd-destuau dilys ar gyfer dysgu | Cymell dysgwyr i gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu | Cefnogi datblygiad cymdeithasol ac emosiynol | Annog cydweithio |
| Ymchrech barhaus i fodloni digwyddiadau sy'n uchel ond o fewn eu cyrraedd | Defnyddio repertoire eang o ddulliau addysgu | Hybu sgiliau datrys problemau, sgiliau creadigol a'r gallu i feddwl yn feirniadol | Datblygu gwybodaeth a phrofiad blaenorol i ennyn diddordeb |
| Ffocws ar y 4 Diben | Defnyddio asesu ar gyfer dysgu i gyflymu'r dysgu | Gwneud cysylltiadau o fewn ac ar draws Meysydd Addysgu a Phrofiad | Atgyfnerthu cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd- Llythrennedd, Rhifedd, a Chymhwysedd digidol |



# 4 DIBEN

**Dysgwyr uchelgeisiol, galluog sy’n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes**

- gosod safonau uchel i’w hunain, yn edrych am ac yn mwynhau her;
- adeiladu sylfaen o wybodaeth ac yn meddu’r sgiliau i gysylltu a chymhwyso'r wybodaeth honno o fewn testunau gwahanol;
- holi ac yn mwynhau datrys problemau;
- gallu cyfathrebu'n effeithiol mewn gwahanol ffurfiau a lleoliadau, gan ddefnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg;
- gallu esbonio'r syniadau a'r cysyniadau maen nhw'n eu dysgu;
- yn gallu defnyddio rhif yn effeithiol mewn gwahanol gyd-destunau;
- deall sut i ddehongli data a chymhwyso cysyniadau mathemategol;
- defnyddio technolegau digidol yn greadigol i gyfathrebu,
- darganfod a dadansoddi gwybodaeth;
- ymgymryd ymchwiliadau ac yn gwerthuso'n feirniadol yr
- hyn maen nhw'n ei ddarganfod ac yn barod i ddysgu
- trwy gydol eu bywydau.

**Cyfranwyr mentrus, creadigol sy’n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eiu bywyd a’u gwaith**

- cysylltu a chymhwyso eu gwybodaeth a'u sgiliau i greu syniadau a chynhyrchion;
- meddwl mewn ffordd greadigol i ail-lunio a datrys problemau;
- nodi ac yn cymryd mantais o gyfleoedd;
- mentro’n bwyllog;
- medru arwain a chyfrannu i dîm mewn ffordd effeithiol
  a chyfrifol;
- mynegi eu syniadau ac emosiynau trwy gyfryngau gwahanol;
- rhoi eu hegni a'u sgiliau fel y gall eraill elwa ac yn barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith.

**Dinasyddion egwyddorol, gwybodus Cymru a’r byd**

- cysylltu a chymhwyso eu gwybodaeth a'u sgiliau i greu syniadau a chynhyrchion;
- meddwl mewn ffordd greadigol i ail-lunio a datrys problemau;
- nodi ac yn cymryd mantais o gyfleoedd;
- mentro’n bwyllog;
- medru arwain a chyfrannu i dîm mewn ffordd effeithiol
  a chyfrifol;
- mynegi eu syniadau ac emosiynau trwy gyfryngau gwahanol;
- rhoi eu hegni a'u sgiliau fel y gall eraill elwa ac yn barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith.

**Unigolion iach, hyderus sy’n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas**

- darganfod, gwerthuso a defnyddio tystiolaeth wrth lunio barn;
- ymgysylltu â materion cyfoes yn ôl eu gwybodaeth a'u gwerthoedd personol;
- ymarfer a deall eu cyfrifoldebau a'u hawliau dynol a democrataidd;
- deall ac ystyried effaith eu gweithredoedd wrth wneud dewisiadau a gweithredu;
- wybodus am eu diwylliant, eu cymuned, eu cymdeithas a'r byd, yn awr ac yn y gorffenno
- parchu anghenion a hawliau pobl eraill, fel aelod o gymdeithas;
- yn dangos eu hymrwymiad i gynaladwyaeth y blaned ac yn barod i fod yn ddinasyddion Cymru a'r byd.

# Meysydd Addysgu a Phrofiad

## Y Celfyddydau Mynegiannol

- archwilio'r celfyddydau mynegiannol er mwyn i ddyfnhau sgiliau a gwybdoaeth gelfyddydol, a galluogi dysgwyr i ddod yn unigolyn chwilfrydig a chreadigol
- archwilio'r celfyddydau mynegiannol er mwyn dyfnhau sgiliau a gwybodaeth gelfyddydol, a galluogi dysgwyr i ddod yn unigolion chwilfrydig a chreadigol.
- creu i gyfuno sgiliau a gwybodaeth, gan dynnu ar y synhwyrau, ysbrydoliaeth a dychymyg.

## Iechyd a Lles

- dysgu a deall fod datblygu iechyd a lles y corff yn arwain at fuddiannau gydol oes.
- dysgu a deall fod ffordd rydym yn prosesu ein profiadau ac yn ymateb iddyn nhw yn effeithio ar ein hiechyd meddwl a'n lles emosiynol.
- dysgu a deall y ffordd rydym yn gwneud penderfyniadau yn effeithio ar ansawdd ein bywydau ni a bywydau eraill.
- dysgu a deall y ffordd rydym yn ymwneud â dylanwadau cymdeithasol yn siapio pwy ydyn ni, ac yn effeithio ar ein hiechyd a'n lles.
- dysgu a deall fod cydberthnasau iach yn hanfodol ar gyfer ein lles.

## Y Dyniaethau

- mae ymholi, archwilio ac ymchwilio yn ysbrydoli chwilfrydedd am y byd, ei orffennol, ei bresennol a'i ddyfodol.
- mae digwyddiadau a phrofiadau dynol yn gymhleth a chânt eu hamgyffred, eu dehongli a'u cynrychioli mewn gwahanol ffyrdd.
- mae ein byd naturiol yn amrywiol a deinamig, wedi'i ddylanwadu gan brosesau a gweithredoedd dynol.
- mae cymdeithasau dynol yn gymhleth ac yn amrywiol, ac maen nhw'n cael eu llywio gan weithredoedd a chredoau pobl.
- mae dinasyddion gwybodus, hunanymwybodol yn mynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu dynoliaeth, ac yn gallu cymryd camau ystyrlon ac egwyddorol.

## Ieithoeddd, Llythrennedd a Chyfathrebu

- mae ieithoedd yn ein cysylltu â'n gilydd.
- mae deall ieithoedd yn allweddol i ddeall y byd o'n hamgylch.
- mae mynegi ein hunain drwy ieithoedd yn allweddol i gyfathrebu.
- mae llenyddiaeth yn tanio'r dychymyg ac yn ysbrydoli creadigrwydd.

## Mathemateg a Rhifedd

- defnyddir y system rif i gynrychioli a chymharu'r perthnasoedd rhwng rhifau a meintiau.
- mae algebra yn defnyddio systemau symbolau i fynegi strwythur perthnasoedd mathemategol.
- mae geometreg yn canolbwyntio ar berthnasoedd sy'n ymwneud â siâp, gofod a safle, ac mae mesur yn canolbwyntio ar feintioli ffenomena yn y byd ffisegol.
- mae ystadegau yn cynrychioli data, mae tebygolrwydd yn modelu siawns, ac mae'r ddau yn cefnogi casgliadau a phenderfyniadau gwybodus.

## Gwyddoniaeth a Thechnoleg

- mae bod yn chwilfrydig a chwilio am atebion yn hanfodol i ddeall a rhagfynegi ffenomenau.
- mae meddylfryd dylunio a pheirianneg yn cynnig ffyrdd technegol a chreadigol i ddiwallu anghenion a dymuniadau cymdeithas.
- mae'r byd o'n cwmpas yn llawn pethau byw sy'n dibynnu ar ei gilydd i oroesi.
- mae mater, a'r ffordd y mae'n ymddwyn, yn diffinio ein bydysawd ac yn ffurfio ein bywydau.
- mae grymoedd ac egni yn gosod sail i ddeall ein bydysawd.
- mae cyfrifiaduraeth yn gosod sail i'n byd digidol.

# LLES

Rhoddir bri ar Iechyd a Lles corfforol a meddyliol ar draws yr ysgol. Dilynwn gynllun Pum Ffordd at Les ac rydym yn rhan o gynllun Ysgolion Iach Gwynedd.

Cynhelir sesiynau Amser Cylch rheolaidd yn y dosbarthiadau. Darparwn gyfleoedd i hyrwyddo iechyd a lles emosiynol y disgyblion a'u datblygiad moesol ac ysbrydol, er mwyn eu meithrin yn ddinasyddion gweithgar, hapus, hyderus a'u paratoi ar gyfer dysgu gydol oes.

Gwelwn bwysigrwydd mewn cynorthwyo dysgwyr i ymdopi â'r newidiadau mewn bywyd, eu cyflwyno i fyd ehangach a'u galluogi i wneud cyfraniad gweithredol i'w cymunedau.

## Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb

Mae addysgu ACaRh yn elfen statudol o'r cwircwlwm, yn cwmpasu gwybodaeth, sgiliau, tueddiadau a gwerthoedd i rymuso dysgwyr i:

- gefnogi eu iechyd a'u lles
- ddatblygu cydberthnasau iach, diogel a boddhaus o bob math, gan gynnwys gyda theulu, ffrindiau ac ymhen amser cydberthansau rhamantus a rhywiol
- ddeall a gwneud synnwyr o'r ffordd y mae cydberthansau, rhyw, rhywedd a rhywioldeb yn llywio eu hunainaeth a'u bywydau eu hunain a rhai pobl eraill.
- ddeall a chefnogi eu hawliau eu hunain a hawliau pobl eraill i fwynhau cysberthansau teg, diogel, iach a boddhaus gydol eu bywydau ac eirioli dros yr hawliau hynny

Mae darpariaeth ACaRh yn helpu dysgwyr feithrin dealltwriaeth gadarnhaol ac adnabod camsyniadau. Y nod yw grymuso dysgwyr yn unol â'u anghenion, eu profiadau a'u datblygiad ehangach. Drwy drafod ac ymateb i gwestiynau ac anghenion dysgwyr, gall yr addysg ddarparu amgylcheddau diogel a grymusol sy'n galluogi'r dysgwyr i fyfyrio ar eu safbwyntiau a'u teimladau am ystod o faterion, a'u mynegi.

Mae ACaRh yn y Cwricwlwm yn canolbwyntio ar dri llinyn:

- **Cydberthynas a Hunaniaeth**: helpu dysgwyr feithrin sgiliau sydd eu hangen i ddatblygu cydberthnasau iach, diogel a boddhaus gydag eraill a'u helpu i wneud synnwyr o'u meddyliau a'u teimladau
- **Iechyd Rhywiol a Lles**: helpu dysgwyr droi at ffynonellau ffeithiol am eu iechyd a'u lles rhywiol ac atgenhedliol i allu gwneud penderfynaidau gwybodus gydol eu bywydau
- **Grymuso, Diogelwch a Pharch**: hepu i amddiffyn dysgwyr rhag pob math o wahaniaethu, trais, camdriniaeth ac esgeulustod a'u galluogi i adnabod cydberthnasau a sefyllfaoedd anniogel neu niweidiol, gan eu helpu i wybod pryd, sut a ble i ofyn am gymorth a chyngor.

## Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg

Mae addysgu CGaM o fewn y cwricwlwm yn statudol ac yn cyd-fynd â'r Maes Llafur Cytunedig. Mae'r profiadau yn paratoi'r dysgwyr fod yn ddinasyddion cyfrifol a gwybodus, ar gyfer bywyd a gwaith, mewn byd amrywiol sy'n newid yn gyflym. Mae'n darparu cyfleoedd i gefnogi dysgwyr wrth iddynt fynd i'r afael yn feirniadol ag ystod eang o gredoau athronyddol crefyddol ac anghrefyddol. Rhoddir sylw i astudiaethau crefyddol, athroniaeth, diwynyddiaeth, cymdeithaseg, seicoleg ac anthropoleg.

Mae'r **cysyniadau**'n ddysgir o fewn C,GaM yn syniadau canolog sydd yn helpu dysgwyr i ddeall a dehongli profiadau dynol, y byd naturiol a'u lle hwy eu hunain ynddo.

Lleolir C,GaM o fewn Maes Addysgu a Phrofiad Dyniaethau ond mae hefyd yn plethu i'r MAPh eraill. Nid oes a wnelo'r pwnc â gwneud dysgwyr yn "grefyddol" neu "anghrefyddol", ond yn hytrach mae'n ymwneud â gwahanol safbwyntiadu athronyddol anghrefyddol yn eu hardal leol, yng Nghymru a'r byd ehanach.

## Bwyd a Ffitrwydd

Mae'r Cwricwlwm yn atgyfnerthu safle addysg bwyd yn y cwricwlwm ysgol yng Nghymru'n sylweddol. Bydd sgiliau paratoi bwyd ymarferol yn cael ei gyflwyno i ddisgyblion. Mae copi o'r Polisi Addysg Bwyd a Ffitrwydd ar gael yn yr ysgol ac ar ein gwefan,

## ASESU

- Mae **asesu parhaus** (bob dydd ar lawr y dosbarth) yn rhan naturiol a phwysig o waith athrawon. Hyn sydd yn arwain at gynllunio a pharatoi gwaith addas ar gyfer pob disgybl.
- Yn ogystal â hyn asesir y disgyblion yn **ffurfiannol** (mwy ffurfiol drwy brofion, tasgau asesu ac ati) ar wahanol gyfnodau o'u hamser gyda ni i sicrhau eu bod yn datblygu fel y disgwylir ac fel ein bod yn gallu mesur eu cynnydd. Defnyddir profion cenedaethol a phrofion ysgol i asesu yn ogystal â'r asesu parhaus.

### Adroddiad Diwedd Blwyddyn Addysgol

Ar ddiwedd Tymor yr Haf, bydd pob rhiant yn derbyn adroddiad ysgrifenedig ar ddatblygiad eu disgybl, yn cynnwys:
- Sylwadau ar ddatblygiad o fewn y Meysydd Dysgu/Sgiliau
- Sylwadau gan yr athrawes ddosbarth ar agwedd, ymddygiad a datblygiad cyffredinol
- Sylwadau gan y disgybl ar gryfderau a llefydd i wella.
- Cofnod o bresenoldeb y disgybl yn ystod y flwyddyn.
- Argymhellion i'r disgybl a'r rhieni.

Caiff copi o'r adroddiad ei gadw yn yr ysgol a'i drosglwyddo hefo disgyblion i'w hysgolion nesaf.

### Cyfarfodydd Rhieni

Cynhelir **Cyfarfodydd Rhieni** deirgwaith y flwyddyn, gan rhoi cyfle i rieni drafod datblygiad eu plant gyda'r athrawes ddosbarth.
Ar ben hyn ceir Noson Agored dymhorol i'r plant gael cyfle i ddangos eu gwaith a'u dosbarth i'r rhieni.

Gellir trefnu cyfarfod ychwanegol ar gais yr ysgol neu'r rhiant ar adeg gwahanol i'r nosweithiau rhieni os oes angen.

## TROSGLWYDDO

### O'r Cylch
Mae cydweithio rhwng yr Ysgol â Chylch Meithrin Llanbedrog sydd yn hwyluso'r pontio rhwng y ddau leoliad. Gweithiwn ar gynllun Croesi'r Bont gyda'r Mudiad Meithrin i ddyfnhau'r berthynas a chael cysondeb.

### I'r Uwchradd
Cydweithiwn yn agos gydag ysgolion uwchradd lleol; Ysgol Botwnnog ac Ysgol Glan y Môr. Gweithiwn ar gynllun pontio sydd wedi ei greu ar y cyd rhwng Ysgolion Dalgylch Botwnnog, cynllun sydd yn cael ei addasu yn unol ag anghenion y disgyblion.

Yn ystod eu cyfnod ym Mlwyddyn 6, caiff y disgyblion fynd ar ymweliadau mwy ffurfiol i'w paratoi ar gyfer y mis Medi canlynol a threfnir cyfarfodydd rhieni i roi cyfle i chi gwrdd â rhai aelodau o'r staff. Y nod yw hwyluso'r pontio i bawb.

Ar ddechrau Blwyddyn 6, byddwch yn cael gwybodaeth am yr ysgolion a sut i gofrestru eich plentyn, a sut i wneud cais i'r Awdurdod Addysg os ydych am i'ch plentyn fynychu ysgol uwchradd wahanol.

Caiff manylion addysgol disgyblion Blwyddyn 6 yn cael eu trosglwyddo i'r ysgol uwchradd er mwyn hwyluso parhad y broses ases, gan ddilyn arweiniad ein Polisi Diogelu Data.

## GWEITHDREFNAU CWYNO

Mae'r Awdurdod Addysg Lleol, yn unol â gofynion Adran 29 o Ddeddf Diwygio Addysg 2002, wedi sefydlu trefn i ystyried cwynion am y modd y mae'r ysgol, Corff Llywodraethu a'r Awdurdod Addysg yn gweithredu mewn perthynas â chwricwlwm ysgol a materion eraill cysylltiedig. Mae'r drefn hon wedi ei hamlinellu mewn dogfen bwrpasol yn y Gymraeg a'r Saesneg sydd ar gael yn yr ysgol. Darperir copi'n rhad ac am ddim, yn ôl y gofyn, i unrhyw rieni sy'n dymuno gwneud cwyn dan y trefniadau hyn, a gall yr Awdurdod ddarparu copi mewn iaith heblaw'r Gymraeg a'r Saesneg os bydd angen.

Mae'r Llywodraethwyr yn mabwysiadu'r weithdrefn hon, dyma'r un a argymhellir gan yr Awdurdod Addysg Lleol ar gyfer ymdrin â chwynion:

- Os oes gan riant broblem mewn perthynas ag addysg plentyn, dylid gwneud apwyntiad i weld yr athro dosbarth ar y cyfle cyntaf drwy gysylltu â'r penaneth. Gellir ymdrin â'r rhan fwyaf o broblemau yn anffurfiol gan yr athro dan sylw.
- Os teimla rhiant nad yw'r broblem wedi ei datrys, neu fod pryderon am fater arall, dylid gwneud apwyntiad i weld y pennaeth.
- Os parheir anfodlon, gellir gwneud cwyn ffurfiol i Gadeirydd y Llywodraethwyr.
- Pe digwyddai rhiant deimlo nad ymdriniwyd â' phryder yn effeithlon, dylir ysgrifennu at yr Awdurdod Addysg Lleol.

Mae copi o'r Polisi Codi Cwyn ar gael yn yr ysgol ac ar ein gwefan.

## CYFLE CYFARTAL

Dymunwn annog a datblygu agweddau cadarnhaol yn y disgyblion, staff, llywodraethwyr a'r rhieni er mwyn i pob disgybl gyflawni eu llawn botensial a gwneud dewisiadau, heb eu llesteirio gan ddisgwyliadau seiliedig ar ryw neu bersonoliaeth.
Ceisiwn gyflawni amcanion yr ysgol gyda phob disgybl, o bob oed, rhyw, gallu, tarddiad ethnig, anabledd neu gefndir y disgybl.
Mae'r ysgol yn dilyn Polisiau Cynhwysiad yr AALl, sydd ddim yn caniatâu i ryw, hîl, lliw nac anabledd gael eu defnyddio yn feini prawf ar gyfer mynediad.
Rydym yn ymwybodol o'n cyfrifoldeb i wneud addasiadau rhesymol i gynorthwyo cydranddalwyr anabl.
Mae'r polisi yn cadarnhau fod yr ysgol yn meithrin agweddau cymdeithasol cadarnhaol, yn sicrhau profiadau eang ac yn annog cyd-weithio hapus ac adeiladol.
Mae copi o'r Polisi Cyfle Cyfartal ar gael yn yr ysgol ac ar ein gwefan.

## HYGYRCHEDD

Nid yw'r ysgol wedi ei dynodi gan yr Awdurdod fel ysgol sydd â'r adnoddau i dderbyn disgyblion ag anableddau. Bydd yr Awdurdod yn sicrhau fod ysgol o'r fath o fewn cyrraedd rhesymol i bob disgybl ag anabledd. Er hyn, mae mynediad i'r anabl wedi ei greu ac rydym yn ystyried newidiadau rhesymol o fewn yr ysgol pan mae disgybl ag anabledd yn dymuno cofrestru.
Rydym yn sicrhau mynediad llawn i'r cwricwlwm i bob disgybl.
Byddai llythyrau o'r ysgol yn cael eu paratoi ar lafar neu gyda phrint bras i rieni pe byddai angen hynny.
Mae cynllun Hygyrchedd cyfredol yn yr ysgol

# ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL A CHYNHWYSIAD

Yn Ysgol Llanbedrog, sicrhawn y gofal a'r gynhaliaeth haeddiannol er mwyn ymestyn pob disgybl, boed hynny yn gymorth a chefnogaeth addysgol ychwanegol o ganlyniad i allu, cefndir ieithyddol, anabledd corfforol neu yn ddarpariaeth i ddisgyblion sydd yn serenu mewn maes arbennig.

Manylir ar hyn yn ei Polisiau ADYaCh a Disgyblion Mwy Abl aThalentog cyfredol, sydd ar gael o'r ysgol neu ar ein gwefan ysgol.

Rydym yn ymateb i ofynion Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg, sydd ar gyfer disgyblion a phobl ifanc 0-25 oed. Mae fersiwn llawn, hawdd ei ddeall, ar gael drwy ddilyn y ddolen hon: https://beta.llyw.cymru/cod-anghenion-dysgu-ychwanegol.

## Nôd y Polisi ADYaCh

Sicrhau bod pob disgybl yn datblygu'n gorfforol, emosiynol a deallus yn ôl ei allu.
Er mwyn i ddisgybl allu cyfrannu'n llawn i'r gymdeithas y mae'n rhan ohoni, rhaid ei arfogi gyda'r cysyniadau, sgiliau a gwybodaeth angenrheidiol. Esbonia'r polisi sut y mae'r Corff Llywodraethol yn ymateb i'r "Rhestr Argymhellion ar Adnabod Anghenion Addysgol Arbennig a'u Haddasu" ac yn bwriadu gweithredu ei gofynion.

## Amcanion y Polisi ADYaCh

- Sicrhau cyfle cyfartal cwricwlaidd a chymdeithasol i ddisgyblion ag ADY
- Dilyn y gofynion statudol o ran ADY
- Gweithredu yn unol ag argymhellion a pholisi'r Awdurdod Addysg Lleol o ran ADY
- Sicrhau bod yr ysgol yn adnabod anghenion allai lesteririo addysg disgybl yn gynnar
- Casglu gwybodaeth i gael y dealltwriaeth orau am anghenion ac anwasterau'r disgybl.
- Sicrhau darpariaeth angenrheidiol ac addas i ddisgyblion ADY
- Sicrhau cydweithrediad a chefnogaeth rhieni ac eraill i adnabod a darparu gwasanaeth.
- Ceisio sicrhau integreiddio gyda gweddill y disgyblion cyhyd ag y bo hynny'n bosibl.

## Sefydliad Sydd yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn

- Dathlwn fod pob disgybl yn unigolyn unigryw.
- Cwblhawn Broffil Un-dudalen gyda pob disgybl yn yr ysgol. Dyma ffordd effeithiol i lais y disgybl gael ei glywed. Mae'n gyfle i'r disgybl adnabod ei anghenion ei hun, yr hyn sydd yn ei helpu i ddysgu a'i rwystro. Yn ogystal defnyddir y proffiliau gan y staff i gynllunio ymlaen. Wedi'r cyfan, mae pob gan pob unigolyn anghenion a chryfderau gwahanol.
- Cynlluniwn dargedau a chefnogaeth mewn dull sydd yn canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Fel ym mhob ysgol, mae rhai unigolion angen mwy o gefnogaeth na'i gilydd. Pan fo hyn yn bodoli, cydweithiwn ac ymgynghorwn gyda rhieni ym mhob cam. Gall nifer o ffactorau effeithio disgybl, ac mae'n hanfodol fod rhieni yn rhannu unrhyw wybodaeth allai effeithio ar ddatblygiad addysg eu disgyblion.

## Cefnogaeth Ychwanegol

**Cam 1– Cofrestr Targed–** Os gwelwn fod gan ddisgyblion anhawsterau dysgu penodol mewn llythrennedd, rhifedd neu ymddygiadol, darparwn gymorth a chefnogaeth ychwanegol iddynt. Penderfynwn ar dargedau personol penodol ar y cyd a rhoir cyfleoedd i'r disgyblion weithio arnynt gyda chymhorthydd, unai yn unigol neu mewn grŵp bychan dros gyfnod o amser. Adolygwn y cynnydd bob hanner tymhor a'i drafod gyda'r disgybl a rhieni i gynllunio'r camau nesaf. Mae'n bosibl y bydd arbenigwyr megis Seicolegydd Addysg,Therapydd Iaith, Athrawes Cynnal Ymddygiad, Athrawes ADY Penodol yn rhannu arweiniad ar ddulliau i'w dilyn yn yr ysgol.
**Cam 2– Cofrestr ADY**—Os oes gan ddisgyblion anawsterau dwysach byddwn yn daparu Cynllun Datblygu Unigol ar eu cyfer, cynllun wedi ei greu gyda chyfranogiad y disgybl, rhieni, arbenigwyr penodol a'r ysgol. Fel rheol bydd arbenigwyr y gwasanaethau cynhaliol yn cefnogi a chynhelir adolygiad blynyddol ffurfiol i drafod cynnydd a chamau nesaf. O fod ar y gofrestr ADY mae gan y disgybl hawliau cyfreithiol i gefnogaeth.

**Gwasanaeth Cynhaliol yr Awdurdod**

Darperir cynhaliaeth arbenigwyr ar gyfer cynorthwyo ysgolion i gyflawni eu dyletswyddau;

- Gwasanaeth Seicolegol i Ysgolion
- Athrawon/Cymorthyddion Ymgynghorol sydd a rôl arbennigol ym meysydd Nam Clyw, Nam Golwg, Meddygol a Chorfforol, Ymddygiadol, Anghenion Dysgu Penodol, Cyfathrebu a Rhyngweithio
- Sector Cyn-ysgol
- Gwasanaeth Lles Addysg

**Adnoddau**

Caiff cyfran o arian yr ysgol ei wario ar adnoddau ADY, gall yr adnoddau hyn gynnwys offer neu staffio. Dyrenir arian i gyllideb pob ysgol gan yr Awdurdod Addysg Lleol yn unol â fformiwla. Nid yw hyn yn ddigon ar gyfer darparu ADY yn yr ysgol ond fe'i defnyddir i gyfrannu.

**Adnabod ADY ac Asesu**

Cedwir cofnodion tracio pob disgybl yn yr ysgol. O leiaf yn dymhorol, mae staff dysgu yn trafod cynnydd pob disgybl ac rydym yn ymateb i bryderon yn gynnar. Defnyddia athrawon yr ysgol asesu fel rhan o ddysgu dyddiol felly cedwir llygaid yn barhaus ac mae gan yr holl staff adnabyddiaeth dda iawn o'r disgyblion. Mynnwn fod pob disgybl yn cael sylw i ddatblygu i'w lawn botensial. Anelwn at ddod yn ymwybodol o unrhyw broblemau neu bryder a all godi yn fuan iawn er mwyn ymateb iddynt. Weithiau bydd y tasgau gwahaniaethol o ran eu natur, dro arall yr ymateb i'r un math o dasg sy'n wahaniaethol. O bryd i'w gilydd, defnyddir profion safonedig i asesu.

**Derbyn disgyblion ag anghenion o ysgol arall**

Ceisir sicrhau bod gwybodaeth am y disgybl yn cyrraedd yr ysgol yn fuan. Yn yr un modd fe fydd yr ysgol hon hefyd yn trosglwyddo unrhyw wybodaeth berthnasol i unrhyw ysgol lle bydd disgybl yn trosglwyddo iddi. Mae trefniadau ar gael i adolygu'r ddarpariaeth ADY os y bydd disgybl ar unrhyw gyfnod yn unol â Pholisi'r AALl. Yn naturiol, mae barn rhieni yn bwysig iawn wrth adnabod ac mewn unrhyw asesiad o ddisgybl a cheisir eu cyd-weithrediad ymhob achos. Pan fo gofyn, cydweithiwn gydag asiantaethau perthnasol wrth ganfod ac asesu disgyblion ADY.

| | |
|---|---|
| Cydlynydd ADYaCh Ysgol Llanbedrog | Mrs Manon Haf Owen |
| Llywodraethwraig Dynodedig ADYaCh | Mrs Miriam Grant |

Os hoffech chi wybodaeth neu gyngor ychwanegol, cysylltwch â ADY eich ysgol neu cysylltwch â SNAP Cymru sy'n cynnig cyngor a chymorth annibynnol yn rhad ac am ddim i rieni drwy ymweld â www.snapcymru.org neu ffoniwch eu llinell gymorth ar 0808 801 0608

## DISGYBLION MEWN GOFAL

Mae gan bob disgybl yng ngofal yr Awdurdol Lleol hawl i fynediad i addysg cyn ysgol a holl wasanaethau addysg, gan dderbyn pob cyfle, cymorth a chyfnogaeth i ddatblygur addysgol a chymdeithasol.
Mae Gwasanaethau Ysgolion Gwynedd, yn unol â'u dyletswyddau statudol, yn cynghori a chynorthwyo ysgolion i ddiogelu ac hyrwyddo lles a chyflawniad addysgol disgyblion sydd yn derbyn gofal.
Mae copi o'r Polisi Darparu ar Gyfer Plant Mewn Gofal ar gael yn yr ysgol ac ar ein gwefan.
Y pennaeth yw'r person dynodedig i hyrwyddo cyflawniad PMG, yn yr ysgol hon, hi yw'r Cydlynydd ADYaCh.

## PATRWM YR ADDYSGU

Mae datblygiad moesol, diwylliannol, meddyliol a chorfforol pob disgybl yn cael ei hybu ar draws yr ysgol, gyda natur y cwricwlwm cyflawn yn wahaniaethol, eang a chytbwys.

Er mwyn ymateb i'r gofynion hyn mae trefniant y dosbarthiadau yn hyblyg iawn; gwaith grŵp, unigol, parau a dosbarth cyfan. Ar adegau, darperir gwaith ar sail oedran, neu ar adegau eraill bydd disgyblion gwahanol oedran yn cyd-weithio ar un dasg. Dysgir y disgyblion fel uned dosbarth sydd dan ofal un athro/athrawes.

Amcan yr ysgol yw sicrhau cyfleoedd cyfartal i'r holl ddisgyblion ac rydym yn addysgu'n drawsgwricwlaidd a chreadigol drwy ymateb i ofynion i Cwricwlwm i Gymru.

## GWEITHGAREDDAU YCHWANEGOL

Gobeithia'r ysgol sicrhau cydweithrediad a chefnogaeth y rhieni gyda'r holl weithgareddau ychwanegol a drefnir. Mae'r ysgol yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau o bryd i'w gilydd sy'n agored i'r holl ddisgyblion, sydd ym marn y pennaeth, yn aeddfed ac yn barod i gymryd rhan ynddynt.

Trefnir clybiau ôl-ysgol, ymweliadau (yn cynnwys rhai preswyl), gwaith maes, gwasanaethau yn y capel a'r eglwys lleol a.y.y.b. Ni all yr ysgol dderbyn cyfrifoldeb am oruchwylio disgyblion ar derfyn sesiynau a gofynnir i rieni/gwarcheidwaid sicrhau eu bod yn gwneud trefniadau i nôl eu plant i fynd adref. Mae'r staff yn falch o roi eu hamser yn wirfoddol i'r gweithgareddau hyn ac rydym yn gwerthfawrogi cymorth rhieni.

## Y CYNGOR YSGOL

Etholir aelodau'r Cyngor Ysgol ar gychwyn pob blwyddyn ysgol, ac maent yn cyfarfod yn rheolaidd. Gosodir lluniau o aelodau'r Cyngor ar wal yn y neuadd a chofnod o'u gweithgareddau. Mae 'Bocs Sylwadau' yn y neuadd, ble mae **pob** disgybl yn cael cynnig syniadau a lleisio eu barn. Agorir y bocs gan y swyddogion a bydd y syniadau yn cael eu trafod yn ystod y cyfarfod. Darperir cofnodion o'r cyfarfod a cant eu trafod gyda'r pennaeth a'u cyflwyno i'r ysgol gyfan mewn cyfarfod torfol. Yn aml mae'r syniadau yn rhai ymarferol ac adeiladol, a gallwn weithredu arnynt.

## CYMREICTOD

Rydym yn dysgu y disgyblion fod yn ymwybodol o'u 'Cymreictod' (os ydynt yn Gymry). Os nad ydynt yn Gymry, rydym yn ymwybodol o'r hyn sydd gan y gymuned Gymraeg a'r diwylliant Cymraeg i'w gynnig iddynt o ran cyfoethogi eu profiadau. Trwy anelu at y rhain, mae'r ysgol hon yn creu amgylchedd sy'n adlewyrchu ei balchder yn ei chymuned.

## CYSWLLT A'R GYMUNED

Mae'n bwysig fod yr ysgol yn chwarae rhan amlwg ym mywyd y gymuned, a'r gymuned ym mywyd yr ysgol. Mae'r nail yn elwa o'r llall. Credwn ei bod yn holl-bwysig i'r ysgol fod yn rhan annatod o'r gymuned leol a byd-eang er mwyn helpu'r disgyblion i feithrin parch a balchder at cynefin a'i thraddodiadau a theimlo cyfrifoldeb.

Byddwn yn datblygu a dyfnhau cyswllt lleol megis drwy ddarparu gwasanaethau Diolchgarwch a chyngherddau Nadolig, ac yn fyd-eang megis drwy wneud gwaith dyngarol er mwyn helpu pobl a sefydliadau sydd mewn angen.

Byddwn yn meithrin cyswllt diwylliannol drwy gefnogi eisteddfodau lleol, creu ymwybyddiaeth o'r traddodiadau sydd yn berthnasol i'r ardal gymunedol. Gwahoddwn arbenigwyr i arddangos hen gelfi ac adrodd hanesion. Ymwelwn â mannau o bwys yn bwysig iawn hefyd. Defnyddiwn dalentau lleol i gryfhau gweithgareddau addysgol megis gwau a chrosio, arlunio a chrefftau gwledig, fel bo'r doniau yn cael eu gwerthfawrogi a bod dilyniant yn y gymuned i'r oesoedd a ddêl. Cysylltwn gydag adnoddau parod sydd ar gael i greu ymwybyddiaeth o fenter a busnes. Drwy hyn crier cysytlltiadau buddiol rhwng y disgyblion a'r athrawon ag oedolion ac arbenigwyr mewn gwahanol feysydd.

Mae cyd-weithio uniongyrchol ag unigolion ac arbenigwyr megis awduron, arlunwyr, crefftwyr,a rhieni yn ehangu a chyfoethogi agweddau ar y cwricwlwm drwy'r ysgol.

Dylid gwneud y plant hefyd yn ymwybodol o'u 'Cymreictod' (os ydynt yn Gymry). Os nad ydynt yn Gymry, dylid eu gwneud yn ymwybodol o'r hyn sydd gan y gymuned Gymraeg a'r diwylliant Cymraeg i'w gynnig iddynt o ran cyfoethogi eu profiadau. Trwy anelu at y rhain, mae'r ysgol hon yn ceisio creu amgylchedd sy'n adlewyrchu ei balchder yn ei chymuned.

## Y 'CWRICWLWM CUDD'

Ar wahân i arbenigedd unigol y staff addysgu, dyma sy'n bennaf gyfrifol am roi i bob ysgol ei chymeriad unigol ac unigryw. Dyma'r rhan o'r cwricwlwm na ellir ei osod o dan benawdau - yr athroniaeth y tu cefn i'r dysgu ac ysgogiadau'r staff, ynghyd â'r ffordd y mae polisiau'r ysgol yn ystyried natur y gymdeithas a wasanaethir ganddi - dyna sy'n rhoi i ysgol ei chymeriad ei hun.

Yma, yn Ysgol Llanbedrog, ceisiwn wneud nifer o bethau nad ydynt yn rhan o'r cwricwlwm ffurfiol, pethau pwysig mewn bywyd, yn ein meddyliau ni. Credwn ein bod yma i roi gwasanaeth mwy na'r amcanion academaidd ar ben eu hunain (er bod y pwysau ac amser yr ysgol yn gwneud hyn yn fwyfwy anodd). Credwn y dylai pob disgybl allu uniaethu ei hun â'i ysgol - ac y dylai fedru gwneud hynny, nid yn unig drwy'r wisg ysgol sydd amdano, ond drwy agwedd yr ysgol at y byd mawr y tu allan. I'r diben hwn, ceisiwn feithrin cysylltiadau â'n cymuned, ysgolion eraill y dalgylch, yr henoed a'r anabl.

Teimlwn fod rhaid gwneud y disgyblion yn ymwybodol o'u "Cymreictod" (os ydynt yn Gymry). Os nad ydynt yn Gymry, dylid eu gwneud yn ymwybodol o'r hyn sydd gan y gymdeithas Gymreig a'r diwylliant Cymraeg i'w gynnig iddynt o ran cyfoethogi eu profiadau. Gan anelu at y pethau hyn mae'r ysgol hon yn ceisio creu awyrgylch sy'n adlewyrchu balchder yn ei chymuned.

Yn ogysta â hyn rhoddwn sylw ac amser i ddatblygu iechyd a lles meddyliol a chorfforol y disgyblion.

## DYDDIADAU TYMOR YSGOL A GWYLIAU 2022-23

**Tymor yr Hydref 2022**
1 Medi 2022 - 23 Rhagfyr 2022

**Tymor y Gwanwyn 2023**
9 Ionawr 2023– 31 Mawrth 2023

**Tymor yr Haf 2023**
17 Ebrill 2023 - 20 Gorffennaf 2023

**Gwyliau**

- 31 Hydref– 4 Tachwedd 2022 (Hanner-Tymor)
- 26 Rhagfyr 2022 - 6 Ionawr 2023 (Gwyliau'r Nadolig)
- 20-24 Chwefror 2023 (Hanner-Tymor)
- 3-14 Ebrill 2023 (Gwyliau'r Pasg)
- 1 Mai 2021 (Calan Mai)
- 29 Mai - 2 Mehefin 2023 (Hanner-Tymor)
- 21 Gorffennaf - 31 Awst 2023 (Gwyliau'r Haf)

Bydd yr ysgolion yn ail-agor ddydd Iau a dydd Gwener, Medi 1af ac 2il i staff (hyfforddiant mewn swydd) a dydd Llun, Medi 5ed i ddisgyblion.

Bydd 4 diwrnod arall o hyfforddiant staff yn cael ei drefnu mewn blwyddyn academaidd, yn ychwanegol i'r uchod, i'w trefnu yn ystod y flwyddyn addysgol.

## Mynd ar wyliau yn ystod tymor ysgol

Mae mynd â phlant ar wyliau yn ystod tymor ysgol yn gallu arwain at amryw o broblemau megis:

- addysg eich disgybl yn dioddef
- colli gwersi a gweithgareddau allgyrsiol
- colli cysondeb gwaith

O ganlyniad, rydym yn gofyn i chi osgoi mynd ar wyliau yn ystod tymor ysgol os yn bosibl. Os oes raid i chi dynnu disgyblion o'r ysgol yn ystod y tymor bydd yn rhaid i chi wneud cais ysgrifenedig ffurfiol i'r Llywodraethwyr o leiaf 4 wythnos cyn y gwyliau.

Mae manylion pellach yn ei Polisi Presenolceb sydd ar gael o'r ysgol neu ar ein gwefan.

## CAU'R YSGOL MEWN ARGYFWNG

Os bydd bydd rhaid cau'r ysgol yn fyr-rybydd, e.e. oherwydd eira mawr neu ddim dŵr, byddwn yn cysylltu â chwi trwy neges destun mor fuan â phosibl, a rhoi nodyn ar wefan yr ysgol, Facebook. Yn ogystal â hyn, byddwn yn ymdrechu i gysylltu â gorsafoedd radio; **Radio Cymru** a **Heart FM**, a nodi hyn ar wefan **Cyngor Gwynedd**.

Os bydd angen cau yn ystod y dydd, e.e os daw yn eira trwm, byddwn yn cysylltu â chwi i wneud trefniadau.

## PWYNTIAU PWYSIG I RIENI YSGOL LLANBEDROG

1. Dylai pob disgybl fod wedi setlo yn yr ysgol erbyn 09.00. Bydd y drws yn cau am 09:00 a phawb yn barod i gychwyn ar waith. Ar y llaw arall, nid yw'r athrawon yn gyfrifol am y disgyblion tan 08:50 felly ond disgyblion y Clwb Gofal/Brecwast ddylai gyrraedd yr ysgol cyn hynny.

2. Dylai rhieni gysylltu â ni cyn 09.00 a.m os na fydd eu disgybl yn dod i'r ysgol – trwy ebost neu alwad ffôn. Gadewch neges ar y peiriant ateb os na chewch ateb.

3. Bydd yr ysgol yn cau am 15:00 i ddisgyblion Meithrin– Bl 2 a 15:15 i ddisgyblion Bl 3-6 6. Ni fyddwn yn gollwng yr un disgybl heb sicrhau fod rhywun i'w gyrchu adref, neu bod trefniant wedi ei wneud ymlaen llaw gyda'r rhieni. Pe digwydd i chwi fod yn hwyr, ffoniwch yr ysgol er mwyn i ni fedru wneud trefniadau angenrheidiol i sicrhau diogelwch eich disgybl.

4. Oherwydd prysurdeb traffig gofynnir i chi gasglu'ch disgyblion a'u goruchwylio'n ofalus wrth fynd at y ceir. Cesglir disgyblion Meithrin– Bl 2 o'r giât ar ochr yr ysgol a disgyblion Blwyddyn 3-6 lawr i'r giât gan aelod o staff.

5. Er mwyn diogelwch ac i osgoi camddealltwriaeth gadewch i ni wybod ymlaen llaw os byddwch wedi trefnu i rywun gwahanol ddod i nôl eich disgybl.

6. Disgwylir i bob disgybl wisgo gwisg ac esgidiau glân, sydd yn ffitio yn iawn i ddod i'r ysgol. Yn ogystal, dylai pawb gael dillad ac esgidiau addas ar gyfer Addysg Gorfforol. Sicrhewch bod enw'r
disgybl ar bob dilledyn os gwelwch yn dda.

7. Ni chaniateir gwisgo clust-dlysau yn yr ysgol heblaw 'studs', rhag i ni gael damwain.

8. Rhaid clymu gwalltiau hir yn ôl bob dydd.

9. Ni ddylai'r disgyblion ddod â ffonau symudol, tegannau nac eiddo gwerthfawr i'r ysgol onibai eu bod eu hangen ar gyfer eu gwaith. Nid oes gennym adnoddau i'w gwarchod ac ni allwn fod yn gyfrifol amdanynt mewn unrhyw ffordd.

10. Ni chaiff y disgyblion ddod â siocled, fferins, gwm cnoi na diodydd heblaw dŵr i'r ysgol.

11. Disgwylir i bob disgybl gadw at ein Rheolau Aur y tu mewn a thu allan i'r ysgol.

12. Mae gan yr ysgol bolisi DIM YSMYGU .

13. Ni ddylai aelod o'r cyhoedd, gan gynnwys rhieni, roi lluniau neu fideo o unrhyw weithgaredd sydd yn ymwneud â'r ysgol ar unrhyw wefan gyhoeddus na rhwydwaith gymdeithasol ar unrhyw achlysur.

14. Cofiwch gysylltu i drefnu apwyntiad os byddwch angen sgwrs gyda'r athrawon,

15. Ni dderbynir ymddygiad ymosodol, amharchus tuag at staff yr ysgol.

16. Ni chaniateir cwn ar dir yr ysgol.

17. Parciwch yn daclus a diogel wrth ddanfon a nôl eich plant o'r ysgol.